




TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES

# Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid - Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru



Dosbarthiad:	Swyddogol
Cyfeirnod y Ddogfen:	TfW-TPD-PLN-ID00797
Diwygiad:	1
Dyddiad Cyhoeddi:	Ebrill 2024

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

## Cynnwys

CYNNWYS	2
1 CYFLWYNIAD	3
2 YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	3
3 NODAU ALLWEDDOL YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	4
4 ADNABOD RHANDDEILIAID	4
5 DADANSODDI RHANDDEILIAID	5
6 ROLAU RHANDDEILIAID A'R DEFNYDD O DDATA	7
7 CYNLLUNIO A CHYFATHREBU	8
8 CAMAU GWEITHREDU YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	8
9 MONITRO GWEITHGARWCH YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	10

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Trosolwg o'r Prosiect

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol i Gymru.

Bydd yr arolwg yn casglu data ar agweddau ac ymddygiad teithio pobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd yn cynnwys holiadur arolwg a dyddiadur teithio. Bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn gynrychioliadol ac yn hygyrch i bobl Cymru ac yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y data a gesglir yn golygu bod modd mesur y cynnydd at dargedau Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net. Bydd yn cyfrannu at benderfyniadau ac yn gwella'r sylfaen dystiolaeth trafniadaeth yng Nghymru, er mwyn i ni allu deall sut mae pobl yn teithio yng Nghymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i helpu i ddylunio ac i ddatblygu'r arolwg. Dechreuodd y profion yn hydref 2023, a bwriedir dechrau casglu data'n llawn ddiwedd 2024.

## 2 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen hanfodol o gyflawni unrhyw brosiect yn llwyddiannus.

Mae'r cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid hwn wedi cael ei ddatblygu i gefnogi a llywio'r systemau Llywodraethu strwythuredig sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y prosiect. Mae'r prosiect yn rhan allweddol o gyflawni elfen bwysig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae ymgysylltu a chynnwys yn elfennau allweddol o hyn. Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan ein hymrwymiaadau presennol fel y rheini ar y Gymraeg, y Ddeddf Cydraddoldeb, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r strwythur llywodraethu yn cynnwys sianeli a phrosesau cyfathrebu amgen gyda rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiect yr Arolwg.

Mae'r cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid hwn hefyd wedi cael ei ddylunio i gefnogi'r gwaith o ganfod, ymgysylltu a chyfathrebu â grwpiau rhanddeiliaid ehangach sydd â diddordeb, ac mae wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Fwrdd Prosiect yr Arolwg.

Yn ogystal, mae darparu ystadegau cadarn, gwerthfawr ac o ansawdd uchel wedi bod yn gymhelliant allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r arolwg. Un o bileri allweddol y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yw "Gwerth", sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu ystadegau newydd sy'n diwallu anghenion y defnyddwyr. Mae'r Cod yn amlinellu pwysigrwydd cydweithio ac ymgysylltu ag amrywiaeth o rhanddeiliaid. Yn ogystal â chadw at

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

y pum ffordd o weithio, rydym ni wedi defnyddio'r egwyddorion yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau i lywio ein cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol datblygiad yr Arolwg i sicrhau ein bod yn cynhyrchu ystadegau er budd y cyhoedd.

### 3 Nodau Allweddol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Bydd egwyddorion a gweithgareddau da wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein hymrwymiad i gyfleu nodau ac amcanion allweddol yr arolwg yn effeithiol a sut rydym ni'n dylunio ac yn cyflawni pob agwedd ar yr arolwg a'r data a fydd yn cael ei gasglu yn y pen draw. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn galluogi rhanddeiliaid i roi adborth amhrisiadwy i ni ar agweddau allweddol ar yr arolwg drwy'r broses ddatblygu, cyhoeddi data a gwneud gwelliannau parhaus ar gyfer tonnau arolwg yn y dyfodol. Gallwn ni hefyd nodi'r ffyrdd gorau o gyfathrebu â rhanddeiliaid a chynnig ffyrdd syml o'u cynnwys.

Drwy gynnwys rhanddeiliaid mewn agweddau allweddol ar ddatblygu a chyflawni'r arolwg gellir sicrhau bod y data sy'n cael ei gyhoeddi yn diwallu anghenion ac yn cael ei ddefnyddio gan ystod mor eang â phosibl o rhanddeiliaid.

Ar sail yr egwyddorion yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, rydym ni wedi nodi cyfres o nodau allweddol ar gyfer y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl i ddefnyddwyr.

- Nodi, ymgysylltu a deall anghenion rhanddeiliaid sydd â diddordeb.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r arolwg gyda chynulleidfa mor eang â phosibl.
- Gwella'r data sy'n cael ei gasglu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion ehangach.
- Cydweithio â rhanddeiliaid i gyflawni eu hanghenion a nodi lle mae modd diwallu eu hanghenion a lle nad oes modd eu diwallu.
- Ymgysylltu â defnyddwyr i ddeall blaenoriaethau adrodd a'r ffordd orau o gyflwyno data a dadansoddiadau; a
- Rheoli a thargedu cyfathrebu amserol â rhanddeiliaid yn effeithiol gan ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid.

### 4 Adnabod Rhanddeiliaid

Bydd nodi rhanddeiliaid presennol a newydd ar gyfer yr Arolwg yn rhan hanfodol o'i lwyddiant cychwynol a pharhaus.

Rydym ni wrthi'n ymgysylltu â llawer o dimau arbenigol ym meysydd trafndiaeth, cydraddoldeb a'r Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru a Trafndiaeth Cymru i

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

ddatblygu'r Arolwg.

Mae Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu nifer o grwpiau llywodraethu a rhanddeiliaid lefel uchel a mwy arbenigol, sy'n cynnwys Comisiynwyr Cymru, defnyddwyr trafndiaeth, cynllunwyr trafndiaeth, y sector masnachol a'r trydydd sector, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, grwpiau cydraddoldeb ac Academia.

Rydym ni hefyd wedi gallu nodi nifer o rhanddeiliaid allweddol ar gyfer yr Arolwg drwy brosiectau tebyg a chysylltiedig eraill ar draws Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru a gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd rydym ni wedi nodi y gallwn ni ddefnyddio nifer o sianeli defnyddiol i gysylltu â rhanddeiliaid posibl ar gyfer yr Arolwg gan gynnwys Panel Cynghori Annibynnol Trafnidiaeth Cymru a Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Grŵp Cyfeirio Craidd, Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd a diweddariadau chwarterol Ystadegau Cymru.

Byddwn ni'n defnyddio'r sianeli cyfathrebu parod hyn i ymgysylltu â'u haelodau i ganfod rhanddeiliaid ychwanegol drwy ddarparu cyflwyniadau, erthyglau ysgrifenedig a diweddariadau ar agweddau allweddol ar yr Arolwg.

Rydym ni hefyd yn bwriadu defnyddio'r holl sianeli ymgysylltu parod hyn i gyhoeddi gwahoddiad agored i amrywiaeth eang o rhanddeiliaid i ddod i nifer o weithdai gwybodaeth a sesiynau ymgysylltu'r Arolwg y byddwn ni'n eu cynnal yng ngwanwyn 2024. Bydd y gweithdai hyn yn ein galluogi i rannu neges fanwl a chyson am yr Arolwg ac yn ein galluogi i ganfod sefydliadau rhanddeiliaid sydd â diddordeb, cysylltiadau perthnasol a'u diddordeb yn yr arolwg a sut y gallen nhw ddefnyddio'r data canlyniadol. Bydd y gweithdai'n galluogi rhanddeiliaid i roi adborth ar y gwaith datblygu a'r cynlluniau ar gyfer yr Arolwg a hefyd i gofrestru diddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori yn y dyfodol, yn enwedig o ran pryd, beth a sut byddwn ni'n cyhoeddi'r data canlyniadol.

Er mwyn cefnogi rhannu gwybodaeth yr Arolwg yn rheolaidd ac yn barhaus, rydym ni wedi creu [adran Arolwg](#) ar wefan Trafnidiaeth Cymru. Dyma lle bydd adroddiadau a data'r arolwg yn cael eu cadw yn y pen draw.

Rydym ni hefyd wedi creu cyfeiriad e-bost pwrpasol [travelsurvey@tfw.wales](mailto:travelsurvey@tfw.wales) i sicrhau bod unrhyw rhanddeiliad yn gallu cysylltu â ni'n uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth am yr Arolwg.

## 5 Dadansoddi rhanddeiliaid

Mae rhanddeiliaid yr Arolwg a nodwyd wedi cael eu dadansoddi ac mae'n ymddangos eu bod yn perthyn i un neu ragor o'r categorïau canlynol:

**Grŵp 1** – Adrannau TrC/Llywodraeth Cymru.


Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

**Grŵp 2** – Sefydliadau rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn rhai agweddau ar yr Arolwg (gan gynnwys Comisiynwyr Cymru, cynllunwyr trafnidiaeth, y sector masnachol a'r trydydd sector, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, grwpiau cydraddoldeb ac Academia.

**Grŵp 3** – Y cyhoedd (gan gynnwys ymatebwyr yr arolwg)

**Grŵp 4** – Y wasg/cyfyngau

Byddwn ni'n cadw rhestrau o'r holl rhanddeiliaid a nodwyd (Grwpiau 1 a 2) a'u meysydd o ddiddordeb penodol er mwyn i ni allu targedu gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus gyda nhw'n effeithiol yn y dyfodol.



Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y grwpiau rhanddeiliaid (ar raddfa 1-5) ar gyfer Pŵer (P) a Diddordeb (D), a sut bydd eu diddordeb yn cael ei reoli a gan bwy yn ystod camau datblygu a chyflawni'r Arolwg.

Grwpiau Rhanddeiliaid	Pŵer	Diddordeb	Sut mae'n cael ei reoli?	Gan bwy?
Grŵp 1	5	5	Rheoli'n Agos	TrC/Llywodraeth Cymru
Grŵp 2	3	5	Rheoli'n Agos	TrC/Llywodraeth Cymru
Grŵp 3	2	5	Cael yr Wybodaeth Ddiweddaraf	TrC
Grŵp 4	3	5	Cael yr Wybodaeth Ddiweddaraf (Yn ôl yr angen)	TrC/Llywodraeth Cymru

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

## 6 Rolau rhanddeiliaid a'r defnydd o ddata

Bydd y pedwar grŵp rhanddeiliaid allweddol hwn yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas â rhai agweddau allweddol ar ddatblygiad cychwynnol yr arolwg ac yna mewn perthynas â gwelliannau parhaus. Byddan nhw hefyd yn ein helpu i bennu'r data rydym ni'n ei gyhoeddi, sut a phryd rydym ni'n gwneud hyn a sut bydden nhw'n hoffi i ni gyfathrebu â nhw mewn perthynas â setiau data sydd wedi cael eu cyhoeddi.

Mae'r tablau isod yn rhoi manylion y grwpiau rhanddeiliaid ac elfennau allweddol y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r arolwg y bydd gofyn iddyn nhw roi mewnbyn arno.

WNTS cymorth i rhanddeiliaid mewn perthynas â'r arolwg							
	Dylunio	Cynnwys	Profi	Deunyddiau Cyhoeddi	Amserlen Gyhoeddi	Anghenion Cyfathrebu	Gwelliannau Parhaus
Grŵp 1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Grŵp 2	✗	✓	✗	✓	✓	✓	✓
Grŵp 3	✓	✓	✓	✗	✗	✗	✗
Grŵp 4	✗	✗	✗	✓	✓	✓	✓

Bydd gan y rhanddeiliaid hyn i gyd eu diddordebau penodol eu hunain yn nata'r Arolwg sy'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y grwpiau rhanddeiliaid a'r rhesymau lefel uchel dros sut rydym ni'n credu y bydd y data'n ychwanegu gwerth at eu gwaith neu'n darparu gwybodaeth newydd am ddata a fydd o ddiddordeb cyffredinol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Defnydd rhanddeiliaid o ddata WNTS				
	Data ar gyfer monitro, gwerthuso a thystiolaeth	Data ar gyfer Lluo Polisiau	Defnyddio data ar gyfer cynllunio neu ymchwil	Diddordeb Cyffredinol
Grŵp 1	✓	✓	✓	✓
Grŵp 2	✓	✓	✓	✓
Grŵp 3	✗	✗	✗	✓
Grŵp 4	✓	✗	✓	✓

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

## 7 Cynllunio a Chyfathrebu

Mae nifer o bynciau allweddol yr Arolwg yn rhai y bydd angen i ni ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol hyn amdanynt.

- 1. Diweddariadau cyffredinol am brosiect yr Arolwg a datblygiadau posibl yn y dyfodol**
- 2. Gwybodaeth gyffredinol am yr Arolwg**
- 3. Anghenion Data Penodol** (Cwestiynau arfaethedig i'w cynnwys yn yr Arolwg, y gallu i ddadgyfuno, cyfyngau hyder tebygol a mynediad at ddata crai.)
- 4. Cyhoeddi data:** Amseriad a chynnwys arfaethedig adroddiadau blynyddol yr Arolwg, cyhoeddiadau ategol, tablau data, offer/meddalwedd cyflwyno data a gweithgareddau cyfathrebu ategol,
- 5. Datblygiadau parhaus a datblygiadau posibl yn y dyfodol** (ar ôl lansio/cyhoeddi data)

Er mwyn bodloni'r gofynion allweddol hyn o ran cyfathrebu â rhanddeiliaid, byddwn ni'n ymgymryd â'r gweithgareddau ymgysylltu allweddol canlynol yn ystod y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r arolwg. Bydd cofrestr yn cael ei chadw o weithgareddau rhanddeiliaid penodol a fydd yn cael eu cyflawni yn erbyn y gweithgareddau allweddol hyn.

Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau ar ôl cyhoeddi pob set ddata flynyddol er mwyn casglu adborth ar gyfleoedd i wella'r data a gafodd ei gasglu a'r deunyddiau cyhoeddi data bob blwyddyn.

## 8 Camau Gweithredu Ymgysylltu â Rhanddeiliaid



Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ddatblygu/darparu'r WNTS		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Cynnal gwybodaeth berthnasol a chyfredol ar Wefan TrC	Parhaus - ar amser priodol	Pob Grŵp
Darparu cyflwyniadau	Yn ôl yr angen/gofyn	Ar Gais
Gweithdai Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	Gwanwyn 2024	Grŵp 2
Cylchlythyr penodol i randdeiliaid	Chwarterol (i ddechrau ar ôl y Gweithdai Ymgysylltu)	Pob Grŵp
Drwy gylchlythyrau trydydd parti (ee diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru)	Chwarterol (o fis Rhagfyr 2023 ymlaen)	Grwpiau 1 a 2
Hysbysiad i'r Wasg (Lansio Arolwg)	Diwedd 2024	Pob Grŵp
Cyfathrebu ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Lansio Arolwg)	Diwedd 2024	Pob Grŵp
Cyhoeddi manylion yr adborth a'r camau a gymerwyd/cyfyngiadau	O fis Ebrill 2024 ymlaen	Pob Grŵp
Ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol ar gynnwys arolwg y WNTS:		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Datblygu Cynnwys Cychwynnol yr Arolwg	Mehefin 2022	Grŵp 1
Cynnwys diwygiedig yr arolwg yn dilyn adolygiad ansawdd allanol	Hydref 2023	Grŵp 1
Cynnwys yr arolwg wedi'i gynnwys ym Mheilot 1	Ebrill/Mai 2024	Grŵp 1
Pheilot 1)	Ebrill/Mai 2024	Grŵp 1
Cynnwys terfynol arfaethedig yr arolwg ar gyfer lansio'r arolwg swyddogol	Diwedd 2024	Grŵp 1
Adolygu'r data a gasglwyd (Blwyddyn 1 yr Arolwg) a gwelliannau posibl	Cyhoeddi data ar ôl Blwyddyn 1 (Blynnyddol)	Grwpiau 1 a 2
Profi Defnyddwyr		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Profion Gwybyddol (Saesneg)	Tachwedd/Rhagfyr 2023	Grŵp 3
Profion Defnyddioldeb (Cymraeg a Saesneg)	Ionawr/Chwefror 2024	Grŵp 3
Peilot 1 (Gwe yn Unig)	Ebrill/Mai 2024	Grŵp 3
Prawf Defnyddioldeb Dyddiadur (Saesneg)	Gwanwyn/Haf 2024	Grŵp 3
Cyhoeddi Adroddiad ar ganlyniadau profion defnyddwyr	Haf 2024	Pob Grŵp
Peilot 2 (Ymarfer Olaf)	Haf 2024	Grŵp 3
Ymgysylltu ar gynnwys a data bras yr arolwg i'w gasglu gyda rhanddeiliaid ehangach:		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid	Gwanwyn 2024	Grŵp 2
Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar adroddiadau'r arolwg arfaethedig a thablau data a delweddau a fydd yn cael eu cyhoeddi:		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Blaenoriaethau'r Gyfres Cyhoeddi Data - Arolwg Defnyddwyr a chyfweiliadau dilynol â rhanddeiliad	Haf 2024	Grwpiau 1 a 2
Blaenoriaethau Amserlen Gyhoeddi Data - Arolwg Defnyddwyr	Ar ôl lansio'r arolwg (Tua Dechrau 2025)	Pob Grŵp
Adroddiad cryno ar adborth defnyddwyr ar allbynnau/blaenoriaethau'r WNTS	Gwanwyn 2025	Pob Grŵp
Ymgysylltu ar ôl cyhoeddi		
Beth	Pryd	Cynulleidfa Darged
Ffurflen gais am adborth a data wedi'i chyhoeddi gyda data'r WNTS	Haf/Hydref 2026	Pob Grŵp
Gweithdai adborth ar ddata cyhoeddiedig a defnyddiau arfaethedig	Haf/Hydref 2026	Grwpiau 1 a 2

Cyfeirnod y Ddogfen	Enw'r Ddogfen	Diwygiad
TfW-TPD-PLN-ID00797	Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	01

Byddwn ni'n mynd ati i ystyried a chyflwyno unrhyw weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol a fydd yn ychwanegu gwerth at y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r arolwg.

## 9 Monitro Gweithgarwch Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Bydd y gwaith o gyflawni nodau allweddol y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n fisol gan fwrdd prosiect yr Arolwg a chan Dîm Prosiect yr Arolwg yn wythnosol.

I gefnogi'r gwaith monitro hwn, byddwn ni'n datblygu ac yn cynnal:

- Rhestr o'r holl weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi'u cwblhau a'u cynllunio.
- Cofrestr o'r holl sylwadau ac awgrymiadau a gafwyd gan rhanddeiliaid yn holiadur a dyddiadur yr Arolwg.
- Cofrestr o sut mae rhanddeiliaid yn bwriadu defnyddio data'r Arolwg er mwyn i ni allu deall a dangos y 'gwerth ychwanegol' uwchlaw amcanion casglu data allweddol yr arolygon.

Byddwn ni'n monitro'r holl adborth ynglŷn â datblygu a darparu'r Arolwg, a lle bo hynny'n briodol byddwn ni'n ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi dro ar ôl tro neu geisiadau am ragor o wybodaeth.

Byddwn ni hefyd yn ceisio casglu adborth uniongyrchol gan rhanddeiliaid fel rhan safonol o rai gweithgareddau ymgysylltu. Bydd yr adborth a sut y caiff adborth ei gasglu yn cael ei deilwra yn dibynnu ar y gweithgaredd ymgysylltu. Byddai'r adborth nid yn unig yn rhoi ffocws i'r arolwg ei hun, ond hefyd y math o ymgysylltu, yr wybodaeth sydd ar gael a'n hymateb i fewnbwn rhanddeiliaid.

Byddwn ni'n ceisio cyhoeddi crynodebau o'r wybodaeth fonitro yn adran yr Arolwg ar wefan TrC.